OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 3256 (Cy.296)

# AETHYDDIAETH,CYMRU

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Sylweddau Annymunol Penodol) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *5 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *26 Rhagfyr 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 66(1), 68(1), 69(1), 74A ac 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**).

I'r graddau na ellir gwneud y Rheoliadau hyn o dan y pwerau yn y Ddeddf Amaethyddiaeth a bennir uchod, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud y Rheoliadau hyn yn rhinwedd y ffaith iddo gael ei ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran mesurau ym maes milfeddygaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd(**3**).

Bu ymgynghori yn ystod paratoi'r Rheoliadau hyn yn unol â gofynion adran 84(1) o Deddf Amaethyddiaeth 1970 neu fel y bo'n briodol o Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**4**) sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

(**1**) 1970 p.40. Mae adran 66(1) yn cynnwys diffiniadau o'r ymadroddion “the Ministers”, “prescribed” a “regulations”; Trosglwyddwyd swyddogaethau “the Secretary of State”, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S.1999/672.

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) O.S. 2003/1246.

(**4**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4).